Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

# Polisi ynni corfforaethol

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

DVLA010W
4/22

## Datganiad polisi

Mae DVLA wedi ymrwymo i leihau'r defnydd o ynni, gan ddefnyddio ynni mor effeithlon â phosibl drwy ddulliau gweithredol, ymddygiadol a thechnolegol, a symud tuag at gyrchu ynni o ffynonellau cynaliadwy carbon isel.

## Disgrifiad

Mae gweithgareddau gweithredol DVLA a gweithgarwch unigol ein staff yn arwain at ddefnyddio ynni, fel arfer ar ffurf trydan, nwy naturiol, neu olew tanwydd.

Nod y polisi hwn yw i ddweud wrth y rhai hynny â diddordeb, gan gynnwys staff, contractwyr, cyflenwyr a'r cyhoedd bod DVLA wedi ymrwymo i leihau'r ynni a ddefnyddiwyd o ganlyniad i'n gweithgareddau.

Ein polisi yw gwella ein perfformiad ynni yn barhaus a lleihau ein heffaith amgylcheddol drwy:

- fodloni gofynion cyfreithiol a gofynion eraill sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni, defnyddio ynni a'r defnydd o ynni
- gwella agweddau ynni ein system rheoli amgylcheddol yn barhaus
- caffael cynhyrchion a gwasanaethau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon
- ystyried gwella perfformiad ynni mewn gweithgareddau dylunio yn yr amgylchedd adeiledig
- sicrhau bod gwybodaeth ac adnoddau ar gael i weithio tuag at gyflawni amcanion a thargedau
- addysgu a gweithio gyda'n defnyddwyr ystadau i leihau'r defnydd o ynni

## Cyflawni a monitro

Byddwn yn:

- cyflawni ein rhwymedigaethau cydymffurfio sy'n gysylltiedig â pherfformiad ynni
- annog staff, contractwyr a chyflenwyr i leihau eu defnydd o ynni wrth ddarparu gwasanaethau a chynhyrchion i ni
- annog contractwyr a chyflenwyr i leihau'r defnydd o ynni yn eu sefydliadau eu hunain drwy feini prawf rheoli a gwerthuso contractau effeithiol
- casglu, monitro a dadansoddi data i fesur perfformiad yn erbyn ein targedau a'n hamcanion
- cynhyrchu adroddiadau cyson i'r tîm gweithredol a'r uwch reolwyr ar ein perfformiad yn y maes hwn fel rhan o adroddiadau cynaliadwyedd
- gweithio tuag at ystâd sero net erbyn 2050
- adnabod ac ystyried gweithredu prosiectau sy'n galluogi datgarboneiddio ystâd DVLA
- defnyddio'r hierarchaeth ynni i flaenoriaethu gweithredu a buddsoddi
- cynhyrchu cyfran o'n gofynion ynni ar y safle gan ddefnyddio technolegau adnewyddadwy
- gweithio tuag at fewnforio ynni carbon isel yn unig o ffynonellau 'gwyrdd' ardystiedig

Perchennog y polisi: **Cennydd Powell**

Enw'r crëwr: **Paul Griffiths**

Dyddiad yr adolygiad diwethaf: **Tachwedd 2021**

Dyddiad yr adolygiad nesaf: **Ebrill 2025**

**Polisi ynni corfforaethol**

DVLA
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL

gov.uk/dvla